Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

ICT Year 6

Uned 6D Amlgyfrwng, Cysyltu Tudalennau a Chreu Tudalennau Gwe

Ynglyn â'r uned hon:

Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu sut i greu dogfen amlgyfrwng gan ddefnyddio testun, delweddau a seiniau. Byddant yn cael eu dysgu sut i greu cysylltiadau rhwng tudalennau a bod yn ymwybodol o anghenion eu cynulleidfa.

Bydd y plant yn cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth gyfathrebu a chyflwyno gwybodaeth mewn cerddoriaeth, celf, hanes, daearyddiaeth, gwyddoniaeth, y cwricwlwm cymreig, dylunio a thechnoleg.

Ble mae'r uned yn ffitio:

- Mae'n bosib bod y plant wedi creu tudalennau amlgyfrwng unigol mewn unedau cynharach.
- Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod y plant yn gyfarwydd â diagramau coeden.

Geirfa:

rhyngweithiol | cysylltiad poeth/hypergyswllt | atodi | hyperdestun

Adnoddau:

pecyn awduro amlgyfrwng | meicroffon | CD-ROM (Porwr rhyngrwyd) | allbrintiau o dudalennau sampl | crëwr tudalennau gwe ar y we fel www.schoolsik.com

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

Deleted: '

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: defnyddio pecyn awduro amlgyfrwng i drefnu, mireinio a chyflwyno set o dudalennau amlgyfrwng a gysylltir, sy'n ymgorffori delweddau, seiniau a thestun

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: defnyddio pecyn awduro amlgyfrwng i gydosod delweddau, sain a thestun ar dudalen amlgyfrwng

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: defnyddio pecyn awduro amlgyfrwng i drefnu, mireinio a chyflwyno set o dudalennau amlgyfrwng a gysylltir, sy'n ymgorffori delweddau, seiniau a thestun; creu tudalennau sy'n cynnig amrywiaeth o opsiynau i ddefnyddwyr; yn creu tudalennau gwe gan ddefnyddio templedi, a chyflwyno gwybodaeth sy'n cydweddu ag anghenion y gynulleidfa.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Gosod yr Olygfa • **syniad allweddol:** bod meddalwedd cyfrifiadurol yn gallu cynnwys ystod o gyfryngau a rhoi ystod o opsiynau i'r defnyddiwr	♦ Trafodwch y gwahaniaeth rhwng CD-ROM a llyfrau a fideos gyda'r dosbarth, a dangoswch fod CD-ROM yn cynnwys ystod o gyfryngau gan gynnig opsiynau gwahanol i'r defnyddiwr. Trafodwch sut mae'r opsiynau hyn yn ymdrin ag anghenion cynulleidfaoedd gwahanol.	• ddeall potensial deunydd amlgyfrwng	• Dylid annog plant i feddwl am fanteision ac anfanteision deunydd amlgyfrwng a sut mae'n cymharu â ffurfiau eraill ar gyfathrebu, fel adrodd stori.
Tasg fer wedi'i ffocysu • **techneg:** dylunio tudalennau amlgyfrwng	♦ Dangoswch amrywiaeth o ddyluniadau o dudalennau amlgyfrwng. Trafodwch sut mae pwyslais a lleoliad yn helpu'r defnyddiwr i ddeall y dudalen, *ee sut mae botymau wedi'u lleoli'n gyson, sut y defnyddir lliwiau llachar a meintiau i ddynodi pwysigrwydd, sut mae lluniau a thestun yn ategu ei gilydd* ♦ Gofynnwch i'r plant werthuso CD-ROM neu dudalen hafan ar y Rhyngrwyd a rhestru'r nodweddion sy'n gweithio/nad ydynt yn gweithio yn eu barn nhw.	• adnabod nodweddion dyluniad da ar gyfer tudalen	• Mae nodweddion dylunio tudalennau'n dda yn cynnwys botymau wedi'u gosod yn gyson, eiconau sy'n hawdd eu deall, eglurder, defnyddio lluniau a thestun yn briodol, defnyddio lliw yn briodol.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.)			
• **techneg:** samplo seiniau	♦ Atgoffwch nhw sut i recordio seiniau gan ddefnyddio meicroffon a sut i greu botwm sy'n canu'r seiniau. ♦ Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a gofynnwch iddynt greu tudalen sy'n cynnwys dewislen o seiniau. Gallai'r dudalen fod yn dudalen o seiniau a recordiwyd gydag offerynnau cerdd, neu gyfarchiad pen-blwydd rhyngweithiol ar gyfer dosbarth babanod, sy'n cynnwys cysylltiadau poeth a gysylltir â seiniau.	• creu tudalen o seiniau a sbardunir gan fotymau sydd wedi'u henwi a'u gosod yn briodol	• Os nad oes meicroffon ar gael, gellid 'llusgo a gollwng' seiniau priodol o CD-ROM.
• **techneg:** cynhyrchu diagram sy'n dangos y cysylltiadau rhwng tudalennau • **techneg:** creu botymau i gysylltu tudalennau	♦ Dangoswch sut mae botymau'n gallu creu cysylltiadau rhwng tudalennau. ♦ Paratowch set o daflenni A4 sy'n dangos tudalennau amlgyfrwng enghreifftiol heb gysylltiadau. Dylai'r set gynnwys tudalen ddewislen a thudalennau sy'n arwain at nifer o dudalennau dilynol. ♦ Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau i nodi'r cysylltiadau rhwng y tudalennau, tynnu unrhyw fotymau sydd eu hangen ac ysgrifennu wrth ochr y botymau y tudalennau maen nhw'n cysylltu â nhw. ♦ Gofynnwch i bob grŵp gynhyrchu siart llif sy'n dangos y cysylltiadau rhwng y tudalennau. Dylid labelu'r saethau ar y siart llif â'r dewis a fyddai'n ymddangos ar y sgrîn.	• drefnu sgriniau enghreifftiol a nodi dewisiadau a chysylltiadau priodol	• Gellid cyflwyno'r plant sy'n cael cysylltu tudalennau'n hawdd ei ddeall i syniad strwythurau canghennog a strwythurau gweog.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu...	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion...*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.)			
• creu tudalennau gwe fel rhan o brosiect dosbarth gan ddefnyddio www.schools.ik.com	♦ Esboniwch wrth y dosbarth y byddant yn defnyddio'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu i greu gwefan ar bwnc maen nhw wedi'i astudio, sy'n cynnwys delweddau, seiniau a thestun ♦ Trafodwch y prosiect i'w defnyddio, wedyn rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a gofynnwch i bob grŵp ddewis agwedd ar y prosiect ar gyfer eu tudalen we, ♦ Dangoswch i'r plant sut i ddewis tudalen demplad, bwydo'r testun i mewn a llwytho delweddau i fyny sy'n dangos sut mae'r tudalennau'n cael eu cysylltu. Wedyn dylai'r plant ddylunio eu tudalennau ar y sgrîn ac argraffu eu canlyniadu. ♦ Dylid cysylltu'r tudalennau â'i gilydd i ffurfio un wefan brosiect.	• dylunio a chysylltu tudalennau i greu gwefan prosiect dosbarth i ddarparu gwybodaeth ar bwnc y mae'r dosbarth wedi'i astudio.	• Gallai ysgolion sydd â'u gwefan eu hunain greu cyswllt i brosiect Blwyddyn 6 i ymestyn gwefan yr ysgol i arddangos gwaith y plant. Gallai rhieni a phlant edrych arni gartref, a bydd yn darparu cyswllt cartref/ysgol defnyddiol

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu...	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion...*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasg Asesu • defnyddio rhaglen awduro amlgyfrwng i drefnu, mireinio a chyflwyno gwybodaeth ar ffurfiau gwahanol ar gyfer cynulleidfa benodol	• Esboniwch wrth y dosbarth eu bod nhw'n mynd i ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu i greu cyflwyniad amlgyfrwng sy'n cynnwys delweddau, sain a thestun. Gofynnwch i'r dosbarth alw i gof yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu hyd yn hyn. • Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a gofynnwch i bob grŵp ddewis pwnc ar gyfer eu cyflwyniad a disgrifio eu cynulleidfa. Gofynnwch i bob grŵp dynnu diagram o'u cyflwyniad, gan ddangos sut mae'r tudalennau'n cysylltu. Dylai plant ddylunio eu tudalennau ar y sgrîn ac argraffu eu canlyniadau.	• Deall potensial amlgyfrwng • Creu seiniau a sbardunir gan fotymau a sydd wedi'u henwi a'u gosod yn briodol • Dylunio tudalennau a chysylltiadau sy'n cyflwyno gwybodaeth glir i'r defnyddiwr	• Gallai ysgolion sydd â chysylltiad i'r Rhyngrwyd ddefnyddio post electronig i rannu sain, testun a graffeg gydag ysgolion eraill. Er enghraifft, gallent gasglu samplau o gyfarchion llafar neu ymadroddion eraill.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website